# Cylchlythyr Llysgenhadon IfancDofE Cymru

# GAEAF 2025

**Croeso i Gylchlythyr diweddaraf Llysgenhadon Ifanc DofE Cymru! Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn gyffrous iawn, gydag enillwyr gwobrwyau yn cael eu dathlu, ynghyd ag ymweliad Brenhinol arbennig iawn!**
**A hefyd, mae gennym ddiweddariadau gan y tîm a gwybodaeth i'w rhannu am gynlluniau sydd ar y gweill. Ewch ymlaen i ddarllen am yr holl uchafbwyntiau!**

## Fersiwn hawdd i'w darllen

Diolch i bawb a gymerodd ran yn ein sesiwn adolygu ddiweddar ar gyfer y Rhaglen Llysgenhadon. Un o'r awgrymiadau gwych oedd creu fersiwn hawdd i'w darllen o'n Cylchlythyr. Rydym wedi gwrando, ac mae honno ar gael bellach!

## Cynghrair Awyr Agored Cymru

Ym mis Medi, roedd **Deryn a Mathew** yng Nghaerdydd ar gyfer Lansiad Maniffesto Cynghrair Awyr Agored Cymru. Roeddem yn falch o fod yn bresennol gyda sefydliadau o bob cwr o Gymru, gyda'n Llysgenhadon yn rhannu sut mae'r cyfle i fod allan yn yr awyr agored drwy'r Wobr wedi helpu i feithrin hyder, sgiliau, a llesiant.



# Gwobrau Gwirfoddolwyr

Llongyfarchiadau i'n Llysgenhadon Ifanc sydd wedi cael cydnabyddiaeth am eu hymdrechion yn gwirfoddoli o fewn DofE!



Enillodd **Joshua** Wobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn 2025 Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint!

Enillodd **Alex** Wobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn 2025 Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)!

Cymeradwywyd **Celyn** hefyd yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Sir Benfro, ac roedd **Ellie** wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Gwirfoddolwyr Caerdydd.

Mae'n wych gweld ein Llysgenhadon Ifanc yn cael cydnabyddiaeth am eu gwaith caled o fewn y rhaglen, ynghyd â'r effaith ryfeddol y maen nhw'n ei chael ar hyd a lled yr elusen a thu hwnt.

# Diwrnod Golff Elusennol



Cafodd y Cyn-lysgenhadon, **Morgan, Caitlin a Lucy** fynd i'r Celtic Manor ym mis Awst ar gyfer Diwrnod Golff Elusennol. Cododd y digwyddiad dros **£12,000** ar gyfer DofE - a fydd yn helpu rhagor o bobl ifanc ledled Cymru i feithrin hyder a gwytnwch. Ochr yn ochr â'r golff, bu'r Llysgenhadon yn cefnogi gwesteion i gymryd rhan ym Mhrofiad 'Beyond the Fairway' – sef cyfres o weithgareddau ystyrlon a hwyliog, wedi'u hysbrydoli gan werthoedd DofE, fel gwytnwch, arweinyddiaeth, a gwaith tîm.

# Diwrnod ysbrydoledig yng Nghaerdydd

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd DofE ddigwyddiad arbennig. Ymunodd **Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin** â ni yng Nghaerdydd, i glywed am effaith DofE ar bobl ifanc ledled Cymru, ac i ddathlu ymrwymiad yr elusen i'r Gymraeg.






Gwych oedd cael cwmni **16** o Lysgenhadon Ifanc, o Raglenni'r DU a Chymru, yn ogystal ag o sawl carfan wahanol. Roedd y Senedd a'r Pierhead yn fôr o grysau polo glas wrth i'r tîm gymryd yr awenau, gan gyfarch gwesteion, rhannu straeon, a thraddodi areithiau ysbrydoledig, a gafodd wir effaith.

Nid yw achlysuron o'r math hwn yn digwydd yn aml iawn, ac rydym mor falch o'r holl Lysgenhadon a gynrychiolodd DofE mewn modd mor hyderus. Cafodd yr ymweliad sylw ar draws sawl ffynhonnell newyddion, a gallwch ddarllen un ohonynt yma.





IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU

# Noson Gyflwyno

Traddododd **Gwennan** araith ysbrydoledig yn Noson Gyflwyno Gwobrau Castell-nedd Port Talbot, a oedd yn dathlu cyflawniadau'r holl bobl ifanc a oedd wedi ennill eu Gwobr.
Anogodd bawb i barhau i siarad am eu profiadau DofE, ynghyd â rhannu eu straeon, gan bwysleisio y bydd y sgiliau a'r hyder a enillwyd drwy DofE yn amhrisiadwy iddynt wrth fynd yn eu blaenau.



# Cyfarfodydd Busnes

Mae **Ffion** wedi bod yn brysur unwaith eto, yn cydweithio ag Ian, ein Huwch Reolwr Cysylltiadau, ar gyflwyniad i Grŵp yr Uchel Siryf ynghylch effeithiau trawsnewidiol ein gwaith gyda phobl ifanc. Roedd hwn yn gyfle ardderchog i amlygu cenhadaeth yr elusen a rhoi hwb i'n proffil.
Yn dilyn y cyfarfod hwn, gwibiodd Ffion ar draws Caerdydd i fynychu ein Cyfarfod Busnes, gan ymgysylltu â'n cefnogwyr a thrafod cynlluniau cyffrous ar gyfer dathlu 70 mlynedd ers ein sefydlu y flwyddyn nesaf!

# Newyddion y Tîm!

Ar ôl 20 mlynedd fel Cyfarwyddwr DofE dros Gymru, mae **Steph Price** wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r gorau iddi ddiwedd fis Mawrth 2026. Gweledigaeth ac ymroddiad Steph oedd yn gyfrifol am lywio'r gwaith o greu'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc. Mae Steph yn aml yn disgrifio'r rhaglen hon fel y cyflawniad y mae'n fwyaf balch ohono.
Wrth i Steph drosglwyddo'r awenau, nid oes gennym unrhyw fwriad i arafu... Bydd y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn dal i dyfu, a byddwch yn dal i fod wrth wraidd popeth a wnawn.



# Recriwtio - Cyfarwyddwr Newydd

Yn dilyn cyhoeddiad Steph, cafodd **Caitlin, Abisha, Tabitha a Mathew** y cyfle i ymwneud â'r broses gyfweld ar gyfer y Cyfarwyddwr newydd. Roedd eu mewnwelediadau a'u barn yn amhrisiadwy, ac yn cynnig safbwynt unigryw o fewn y broses ddethol.

# Posteri pop-yp - sy'n eich cynnwys CHI!

Rydym wedi adnewyddu ein posteri pop-yp ar gyfer digwyddiadau gyda lluniau newydd, ac wedi cynnwys rhai o'n Llysgenhadon rhyfeddol. Cadwch olwg am wynebau cyfarwydd yn ein digwyddiadau sydd i ddod!







# Beth sydd ar y gweill?

- Ym 2026, byddwn yn dathlu 70 mlynedd ers ein sefydlu, sy'n golygu y cynhelir nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau arbennig i chi gael cymryd rhan ynddynt drwy gydol y flwyddyn.
- Rydym hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer y gwaith o recriwtio Llysgenhadon Ifanc carfan 26-28, a disgwylir y bydd modd cyflwyno ceisiadau o fis Mai 2026.
- Cynhelir **ExpedFest 2026** ym mis Mawrth, sef ein digwyddiad hyfforddiant blynyddol, lle bydd Arweinwyr yn dod ynghyd o bob cwr o Gymru i ddysgu am sgiliau awyr agored a rhai ar gyfer Alldeithiau. Os ydych yn 18 oed neu'n hŷn, ac wrthi'n cefnogi alldeithiau DofE mewn canolfan, cysylltwch â Megan ynghylch mynychu'r digwyddiad hwn. Gellir caelrhagor o fanylion yma.

**Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau eich diweddariad ar gyfer y gaeaf!**

Dymuniadau Gorau

Tîm DofE Cymru

IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU